# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# DISGRIFIAD O SWYDD

| | |
|---|---|
| **Swydd:** | **Athrawon (ac eithrio Penaethiaid)** |
| **Atebol i:** | **Pennaeth yr Ysgol** |
| **Cyfrifoldeb(au):** | **Ymgymryd â dyletswyddau proffesiynol athrawon yn ôl y gofyn.** |

**Prif Gyfrifoldebau**

Yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 1999 gan gynnwys:-

1. **ADDYSGU**

1.1 Addysgu disgyblion yn unol â gofynion cwricwlwm yr ysgol
1.2 Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi
1.3 Addysgu yn ôl anghenion addysgol disgyblion, gan gynnwys gosod gwaith a'i farcio.
1.4 Asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, eu cofnodi ac adrodd yn ôl arnyn nhw.

2. **GWEITHGAREDDAU ERAILL**

2.1 Hyrwyddo cynnydd a lles cyffredinol disgyblion neu ddosbarthiadau unigol neu gylch o ddisgyblion.
2.2 Rhoi arweiniad a chyngor i ddisgyblion ynglŷn â materion addysgol a chymdeithasol.
2.3 Cadw cofnodion a pharatoi adroddiadau ynglŷn ag anghenion personol a chymdeithasol disgyblion.
2.4 Meithrin cysylltiad â rhieni ac ymgynghori â nhw
2.5 Meithrin cysylltiadau â gwahanol bobl a chyrff y tu allan i'r ysgol a chydweithio â nhw.
2.6 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu i drafod unrhyw rai o'r materion uchod.

3. **ASESU A PHARATOI ADRODDIADAU**

3.1 Cynnal asesiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, paratoi adroddiadau a rhoi cyfeiriadau.

## 4. TREFNAU GWERTHUSO

4.1 Bod yn rhan o'r trefniadau sydd wedi'u pennu yn unol â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 1991.

## 5. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD PELLACH

5.1 Adolygu dulliau dysgu a rhaglenni gwaith.
5.2 Ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach yn athro/athrawes.

## 6. DULLIAU ADDYSGU

6.1 Cynorthwyo â'r gwaith o baratoi cyrsiau, deunyddiau dysgu, rhaglenni a dulliau dysgu a'u datblygu.

## 7. MATERION DISGYBLU AC IECHYD A DIOGELWCH

7.1 Cadw trefn a disgyblaeth ymhlith disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch.

## 8. CYFARFODYDD I'R STAFF

8.1 Mynychu cyfarfodydd yn yr ysgol sy'n ymwneud â materion y cwricwlwm, materion gweinyddol a chyfundrefn yr ysgol.

## 9. MATERION CYFLENWI

9.1 Goruchwylio disgyblion a'u dysgu pan na fydd athro arall ar gael.

## 10. ARHOLIADAU ALLANOL

10.1 Paratoi disgyblion ar gyfer eu harholiadau.

## 11. MATERION RHEOLI

11.1 Cyfrannu at broses benodi athrawon a staff eraill a chyfrannu at eu datblygiad proffesiynol, gan gynnwys y camau sefydlu ac asesu athrawon newydd a'r rheiny sydd ar brawf.

11.2 Cydlynu gwaith athrawon eraill neu'i reoli.

11.3 Adolygu gweithgareddau mewn perthynas â materion y cwricwlwm, cyfundrefn a dyletswyddau bugeiliol, eu datblygu a'u rheoli.

12. **MATERION GWEINYDDOL**

12.1 Ymgymryd â gorchwylion gweinyddol a threfniadol gan gynnwys rheoli/goruchwylio'r rheiny sy'n rhoi cymorth i athrawon yn yr ysgol ac archebu offer a deunyddiau i'r ysgol.

12.2 Mynychu gwasanaethau boreol, galw'r gofrestr a goruchwylio disgyblion.

**Crynodeb o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon 1999, Rhan XII (Amodau Gwaith Athrawon ac eithrio Penaethiaid) ydy'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau sydd wedi'u rhestru uchod. Dylech chi gyfeirio at y ddogfen ar gyfer yr ystod lawn o ddyletswyddau a chyfrifoldebau athrawon nad ydyn nhw'n benaethiaid.**

# ATHRO/ATHRAWES DOSBARTH

# MANYLEB PERSON

**Teitl y Swydd:** Athro / Athrawes

**Cyflog:** Graddfa Cyflog Athrawon

**Cyflwyniad**
Pwrpas y ddogfen hon yw eich galluogi chi, fel ymgeisydd, i ystyried os oes gennych y nodweddion angenrheidiol, ai peidio, ar gyfer cael eich penodi i'r swydd. Noder bod y ddogfen hon yn crybwyll y nodweddion a ystyrir yn **angenrheidiol** er mwyn mynd i'r afael â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd hon, a'r rheiny sy'n **ddymunol** yn unig. Os nad ydych yn meddu ar un o'r nodweddion **dymunol**, nid yw'n golygu na fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer cyfweliad na chyflogaeth yn dilyn hynny.

| SGILIAU / NODWEDDION | ANGENRHEIDIOL / DYMUNOL | DULL PWYSO A MESUR |
|---|---|---|
| **Addysg a Hyfforddiant**<br>Statws Athro Cymwysedig | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau / Nodweddion**<br>Sgiliau trefnu ardderchog | **DYMUNOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog | **DYMUNOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i gydweithio a dilyn trefniadau a gytunwyd arnynt | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ysgogi disgyblion a chynnal disgyblaeth dda | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ddadansoddi anghenion y disgyblion | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Meddu ar y gallu i fod yn hyblyg | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o weithio â ThGCh | **DYMUNOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol yn y dyfodol | **DYMUNOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i ddysgu Cymraeg fel ail iaith | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Anghenion Eraill**<br>Ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd cyfartal. | **ANGENRHEIDIOL** | Ffurflen Gais / Cyfweliad |